# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 17eg o Orffennaf 2017 am 7:15pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Bethan Lawton, Arwel Pierce, Alan H. Jones

1. Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Simon Jones, Peter Parker

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un cynghorydd ddatgan buddiant

3. Derbyn cofnodion 26 Mehefin 2017

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion, gyda'r Cynghorydd Bethan Lawton yn cynnig ar Cynghorydd Arwel Pierce yn eilio'r cynnig.

4. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101556 | £166.64 |
| Cyllid a Thollau | Yswiriant Gwladol | 101557 | £41.60 |
| Active Garden Ltd | Cae Chwarae | 101558 | £1,940.00 |
| Playsafety Ltd | Cae Chwarae | 101559 | £84.00 |
| Dail Dysynni | Rhodd | 101560 | £100.00 |
| Pwyllgor Carnifal | Rhodd | 101561 | £100.00 |
| Cwmni Tân Llŷn | Offer tân | 101562 | £33.00 |
| A H Jones | Trydan | 101563 | £20.00 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.

5. Trafod creu ffilm hanesyddol sydd yn cyfweld trigolion Bryncrug:

Croesawyd un aelod o'r cyhoedd i'r cyfarfod am oddeutu 7:30pm

**PENDERFYNIAD:** Ysgrifennu llythyr at Dail Dysynni er mwyn holi trigolion am hen luniau, canfod a oes diddordeb yn lleol, gan hefyd gynnwys Dolgoch yn hanes y pentref pe byddai'r Cyngor yn penderfynu cynhyrchu ffilm.

6. Cyngor Gwynedd - Gwasanaeth Trethi :

Mewn ymateb i ymholiad gan Gyngor Cymuned Bryncrug, derbyniwyd llythyr gan wasanaeth trethi yn dweud nad oedd modd lleihau trethi annomestig y Pafiliwn gan bod Cyngor Cymuned Bryncrug yn gorff sy'n gosod trethi. Byddai angen i'r Pafiliwn fod o dan reolaeth elusen neu fudiad gwirfoddol er mwyn derbyn rhyddhad.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Bryn Castell, Bryncrug (NP5/55/L151B):

**PENDERFYNIAD:** Dim sylw, y Cyngor yn falch o weld hen adeilad yn cael ei adnewyddu.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Uned Cynllunio (Cydymffurfiaeth) - Eglwys Sant Matthew a 3 Glandwr:

Adroddodd y Clerc bod llythyr wedi ei dderbyn hefyd gan Uned Rheolaeth Adeiladu, Cyngor Gwynedd.

Yr oedd llythyr Uned Rheolaeth Adeiladu yn dweud nad oedd modd i'r uned weithredu ar hyn o bryd gan nad oedd yr adeiladau yn beryglus.

Yr oedd llythyr Uned Cynllunio (Cydymffurfiaeth) Parc Cenedlaethol Eryri yn gofyn am wybodaeth parthed cyfeiriad cyfredol ar gyfer perchenogion y ddau adeilad.

**PENDERFYNIAD:** I ysgrifennu at Parc Cenedlaethol Eryri er mwyn eu hysbysu bod modd cysylltu gyda perchennog 3 Glandwr trwy Cyngor Gwynedd, gan bod y perchennog yn gweithio i Gyngor Gwynedd yn Nolgellau. I awgrymu bod Parc Cenedlaethol Eryri yn cysylltu gyda'r Esgob er mwyn cael cyfeiriad cyfreithiwr perchennog Eglwys Sant Matthew. I gysylltu gyda Cyngor Gwynedd er mwyn eu hysbysu bod drain dros wal yr Eglwys a gofyn iddynt ei dorri.

9. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Fersiwn adneuo Cynllun Datblygu Lleol Eryri diwygiedig 2016-2031 - Ymgynghoriad:

**PENDERFYNIAD:** I ysgrifennu at Parc Cenedlaethol Eryri er mwyn gofyn am wybodaeth ar ba sail mae darn newydd o dir, cyfeirnod 12/02 i'w ddatblygu.

10. Cyngor Gwynedd - Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd - Gwter Angen Sylw:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

11. Cyngor Gwynedd - Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd - Creu Mynediad Cerbyd i Annedd:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

12. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn - Gwahoddiad i Weithdy:

**PENDERFYNIAD:** I ysgrifennu llythyr at y Bwrdd er mwyn mynegi barn y Cyngor, sef ei fod yn afresymol nad oes gweithdy yn cael ei gynnal ym Meirionnydd, gyda'r sesiynau ym Mangor, Caernarfon a Llangefni.

13. Hunaniaith - Cynllun Cyfieithu Cymunedol:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth, gan gadw'r wybodaeth ar gyfer y dyfodol.

14. Cwyn gan drigolyn lleol - sŵn uchel o dafarn y Peniarth:

**PENDERFYNIAD:** I anfon y gwŷn ymlaen at Uned Trwyddedu, Cyngor Gwynedd.

15. Pwyllgor Carnifal Bryncrug - llythyr o ddiolch:

Adroddwyd bod cwynion wedi eu derbyn ar ddiwrnod y carnifal gan bod nifer o gŵn ar y cae.

**PENDERFYNIAD:** I hysbysu Pwyllgor Carnifal Bryncug, y dylid yn y dyfodol sicrhau nad oes cŵn ar y cae.

16. Dyfynbris - gosod tarmac i greu man parcio ger y Pafiliwn:

Derbyniwyd dyfynbris gan gwmni James Cyf.

**PENDERFYNIAD:** I adael y dyfynbris ar y bwrdd.

17. Cae Chwarae - gosod mast teleffon:

Yr oedd cynnig ffurfiol wedi ei dderbyn, ynghyd â chopi o ddogfen gyfreithiol a manylion y mast dan sylw.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cynnig mewn egwyddor, gan wahodd cynrychiolydd o'r cwmni i gyfarfod o'r cyngor. I ofyn am wybodaeth parthed uchder y mast ac am berchnogaeth y tir, fyddai'r cwmni yn prydlesu'r tir neu'n dymuno cael perchnogaeth rhydd-ddaliad .

18. Cae Chwarae - Adroddiad:

Yr oedd adroddiad RoSPA wedi ei dderbyn.

Nodwyd y canlynol:
-bin 'sbwriel iawn
-byrddau picnic angen eu rhoi yn sownd i'r llawr

**PENDERFYNIAD:**

I dderbyn y wybodaeth uchod.
I daflu un o'r byrddau picnic, gyda'r Cadeirydd i edrych am fwrdd newydd yn y Sioe Amaethyddol.
Gofyn i gontractwr y Cyngor i edrych ar boltiau'r offer chwarae er mwyn eu tynhau.
I ofyn i'r Clwb Pêl-droed am gopi o'u yswiriant, gan hefyd gofyn i'r clwb edrych ar y cae, sef y pyst, a'r sef tir o flaen y goliau sydd wedi gwisgo.

19. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Adroddwyd bod y Cynghorydd Bethan Lawton wedi mynychu cyfarfod ble yr oedd Dilwyn Williams, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd yn siarad. Yn y cyfarfod, yr oedd problemau trigolion yr ardal yn caei ei trafod, sef diffyg gofalwyr cartref, staff i sicrhau bod gwlâu ar gael mewn ysbytai, llanast ar strydoedd a biniau sbwriel, arwyddion ffyrdd angen eu glanhau, toiledau cyhoeddus o dan fygythiad a baw cŵn.

**PENDERFYNIAD:**
I dderbyn y wybodaeth gan y Cynghorydd Sir.
I gysylltu gyda Chyngor Gwynedd er mwyn adrodd bod tyfiant ar hen bont rhestredig Dysynni, ger Llanegryn.

20. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Trafodwyd yr oedi mewn torri gwair ar ffyrdd bach gwledig a'r angen i ysgubo strydoedd a lladd chwyn.

**PENDERFYNIAD:** I ysgrifennu at Uned Priffyrdd, Cyngor Gwynedd er mwyn gofyn i'r uned 'sgubo'r ffyrdd a lladd chwyn.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:45pm

Llofnod y Cadeirydd ............................................................